

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg



Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: **Cynydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg** dros y degawd diwethaf.



Lansiwyd ymgynghoriad ar **bolisi drafft cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.**



Dros **1,600** o aelodau staff a gwirfoddolwyr wedi cymryd rhan yn 'Academi', rhaglen **Datblygiad Proffesiynol Parhaus Mudiad Meithrin.**



Yn ystod 2018/19, roedd **13,200** o oedolion wrthi'n **dysgu Cymraeg** gyda'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.**



Cynydd yng nghanran y dysgwyr sy'n sefyll **Cymraeg fel pwnc TGAU: 18%** iaith gyntaf a **69%** ail iaith.




Fel rhan o raglen **Cymraeg i Blant**, dros **17,000** o sgysiaid un i un wedi'u cynnal gyda theuluoedd am addysg cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref.

Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg



85,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau **Dydd Miwsig Cymru.**



37,000 o bobl wedi dathlu **Tafwyl** yng Nghastell Caerdydd.



11 gŵyl newydd wedi derbyn cymorth ariannol gan y **Gronfa Gwyliau Bach.**



9,500 o weithgareddau dysgu wedi'u cynnal o dan faner y rhaglen **Cymraeg Gwaith** yn ystod 2019/20 gyda **7,000** sesiwn ar-lein a **2,500** sesiwn wyneb yn wyneb.



Dros **231,000** o bobl wedi mynychu dros **9,200** o weithgareddau gan y mentrau iaith yn ein cymunedau.



Lansiwyd gwasanaeth cymorth a chyfieithu **Helo Blod** fel gwasanaeth ar-lein a thros y ffôn.



Dros **9,000** o blant a phobl ifanc wedi mynychu gweithgareddau cymunedol y **clybiau Ffermwyr Ifanc.**

Thema 3: Creu amodau ffafriol - seilwaith a chyd-destun



Cyhoeddwyd **£2m** i raglen **ARFOR** er mwyn datblygu prosiectau arloesol i gryfhau'r economi wledig ynghyd â chefnogi'r **Gymraeg** yng **Ngheredigion, Gwynedd, Sir Gâr** ac **Ynys Môn.**



Cyhoeddwyd ein bwriad i sefydlu **Prosiect 2050** - uned cynllunio ieithyddol amlddisgyblaethol newydd.



Dathlwyd **Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Brodorol UNESCO** yn 2019.